# Y Rhyfel Byd Cyntaf

## Taith gerdded o amgylch Talgarth, Powys

T91-1124 Wt.Y1930 82M Bks. 7/52 N.J.L.Ltd.

# Cyflwyniad ...

Tref farchnad fechan yw Talgarth ym Mhowys, canolbarth Cymru. Talgarth oedd prif ganolfan y Deyrnas Gymreig – Brycheiniog - ar ddechrau'r oesoedd canol.

Mae'r enw Talgarth yn golygu 'blaen y bryn' a lleolir y dref ar odre'r Mynyddoedd Du.

Mae'r daith gerdded gylchol hon o amgylch y dref yn eich galluogi i wybod sut yr oedd dynion a gwragedd o Dalgarth yn rhan o'r Rhyfel Byd Cyntaf a sut y cawsant eu heffeithio gan y rhyfel hwn.

## Cydnabyddiaeth

Lluniwyd y daith gerdded hon gan Gerddwyr Talgarth, y Grŵp Croeso a Phrosiect Cofebion Rhyfel Powys. Ariennir Prosiect Cofebion Rhyfel Powys gan Gyngor Sir Powys, Cronfa Treftadaeth y Loteri, Cadw (Llywodraeth Cymru) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## Crynodeb o'r daith gerdded ...

Ychydig dros 1 filltir yw'r daith gerdded. Mae wedi cael ei graddio fel taith gerdded "hawdd" oherwydd mai ychydig iawn o lethrau sydd i'w dringo ac i'w hesgyn. Mae mwyafrif y daith ar balmentydd. Fel gyda phob taith gerdded, rydym yn argymell eich bod yn gwisgo dillad priodol i gerdded, gan gynnwys esgidiau cadarn neu esgidiau cerdded.

Mae'r daith gerdded yn dechrau yn y prif faes parcio yn Nhalgarth. LD3 0PQ yw'r cod post ar gyfer hyn

## Dechrau ...

Gadewch y maes parcio trwy'r brif fynedfa a throi i'r chwith i fynd ar hyd y Stryd Fawr. Parhewch ar hyd y Stryd Fawr am tua 50 medr. Dilynwch y troad cyntaf i'r dde gyda'r arwydd Pwll y Wrach, a adwaenir fel Heol Las. Byddwch yn gweld y Broken House. Westbrook House oedd yr enw blaenorol arno a Thafarn yr Horse and Jockey cyn hynny.

# Safle 1:

## Broken House (Westbrook House/ Tafarn yr Horse and Jockey)

Roedd Mary, mam weddw'r Preifat William Francis David Williams, Bataliwn yr 22ain, Y Ffiwsilwyr Brenhinol (rhif gwasanaeth 49820), yn byw ar y Stryd Fawr. Bu farw Evan, tad Williams ac roedd Mary yn groser yn Westbrook House, sef Tafarn yr Horse and Jockey yn flaenorol lle'r oedd ei daid, William Price, yn dafarnwr a saer olwynion.

Mae adroddiad papur newydd yn esbonio fod William wedi'i eni yn Nhalgarth ond wedi byw yn Y Fenni lle'r oedd yn glerc ym Manc yr United Counties. Ymunodd â Bataliwn y Bancwyr a throsglwyddo i'r Ffiwsilwyr Brenhinol. Aeth i Ffrainc ym mis Hydref 1916 ond bu farw o anafiadau i'w frest mewn gorsaf trin anafiadau, dim ond pedwar mis yn ddiweddarach ym mis Chwefror 1917. Roedd yn 22 mlwydd oed.

Mae carreg marmor yn ei goffau yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig digysegr Bethania yn Nhalgarth.

Ewch yn eich blaen ar hyd y Stryd Fawr am tua 100 medr a chroesi'r bont. Byddwch yn cerdded heibio i Felin Talgarth a'r Bakers Table (caffi a phopty) ar eich dde. Yr adeilad nesaf ar y dde yw Neuadd y Dref Talgarth.

# Safle 2:

## Neuadd y Dref Talgarth



Cafwyd adroddiad ar gyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref Talgarth ar 6 Awst 1914 ym mhapur newydd The Brecon and County Times:


"At the request of the Lord Lieutenant (Lord Glanusk) a public meeting was called at Talgarth Town Hall on Tuesday evening and was preceded by the Territorials parading the streets headed by their bugle band. The Town Hall was packed. The chair was taken by Mr C. E. G. Gordon of Tregunter. On the platform, in addition to many ladies, were Lieut. A.G. Phillips, Dr Jayne, Dr Porter, Mr J. Mills, Mr J. Parry and a number of the National Reserve.

The chairman said he was a newcomer amongst them, but he hoped every man who was able to carry a rifle or do anything would join the ranks and help to defend our homes. Lieut. Phillips, Dr Jayne, the Vicar (the Rev. D. Williams) and Dr Porter (an Ulster man) all made patriotic speeches. The Chairman then called for volunteers and there was a rush for the platform. Lieut. Phillips and Drum Major F. T. Morgan took the names of about 20 men to join the Territorials and Mr Fred Morgan took the names and addresses of over 20 men ready to serve in various capacities. A local committee was appointed consisting of 18 gentlemen and 6 ladies with Mr Fred Morgan as Honorary Secretary. The meeting was the most enthusiastic ever held in Talgarth."

Ychydig iawn o syniad oedd gan y rheini a frysiodd i'r llwyfan o'r erchyllterau oedd i ddod. Yng nghyfarfod y Cyngor Plwyf a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, pedwar mis yn ddiweddarach, darllenwyd llythyr gan Ysgrifennydd y Pwyllgor Recriwtio Rhanbarthol yn gofyn i'r cyngor weithredu fel yr awdurdod recriwtio ar gyfer

ardal Talgarth. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn siŵr y byddai pob aelod yn gwneud ei orau glas i annog unrhyw ddyn ifanc i wneud ei ddyletswydd er nad oedd yn credu fod llawer o ddynion ifanc yn weddill yn Nhalgarth; roedd y mwyafrif wedi ateb yr alwad eisoes.

Croeswch y ffordd (Y Banc) a sefyll ger Gwesty'r Tower (1873).



## Safle 3:
### Gwesty'r Tower

Cartref yr Ail Is-gapten David Bernard Powell, y 12fed Bataliwn, Cyffinwyr De Cymru oedd Gwesty'r Tower. Bataliwn o ddynion byrrach nag isafswm taldra'r Fyddin Brydeinig (Bantam Battalion) oedd y 12fed Bataliwn. Wedi'i eni yn Rhymni (Sir Fynwy), mab John a Sarah Powell o Westy'r Tower oedd David. Bu farw ar 4 Medi 1917. Yn ôl adroddiad papur newydd yn cyhoeddi marwolaeth David, nid oedd yn ofni marw wrth adael adref a dywedir iddo ddweud "Dim ond unwaith y gallwch farw." Yn ychwanegol at David,

roedd tri mab arall gan Mrs Powell yn gwasanaethu yn y Rhyfel Mawr. Roedd Thomas Herbert Morgan, a aeth i Awstralia cyn y rhyfel, ym myddin Awstralia. Roedd Hugh Rowland Stephen yn y Peirianwyr Brenhinol a mab arall yn y Llynges.

Trowch i wynebu'r siopau. Dyma Sgwâr y Farchnad.

# Safle 4:

## Sgwâr y Farchnad

Roedd y Preifat Rhys Thomas Prydderch, y 13eg Corfflu Llafur sef Corfflu'r Brenin (Catrawd Lerpwl) (rhif gwasanaeth 70532), yn pregethu yn y Sgwâr. Roedd ef yn ddyn o rym ysbrydol mawr ac yn un oedd yn byw pob manylyn o'r bywyd Cristnogol yn drwyadl. Yn ôl adroddiad papur newydd, roedd ef yn adnabyddus yn Nhalgarth a Bronllys sydd gerllaw.

Gwirfoddolodd Rhys yn 1914 ond cafodd ei wrthod oherwydd bod ei glun yn achosi trafferthion iddo. Bu farw mewn ysbyty milwrol ar ddydd Llun Y Pasg, 23 Mawrth 1917 yn 34 mlwydd oed.

Cerddwch heibio siop y Co-op ar eich dde a throi i'r dde i fynd at Heol Bronllys. Fe fyddwch yn gallu gweld prif gofeb rhyfel y dref ar ochr arall y ffordd, nesaf at yr Afon Ennig.

Croeswch y ffordd i weld y gofeb yn agos.



# Safle 5:

## Cofeb rhyfel tref Talgarth

Plac pres yn Neuadd y Dref oedd cofeb wreiddiol y Rhyfel Byd Cyntaf.

Wedi'r Ail Ryfel Byd, fodd bynnag, cafodd y plac ei gladdu yn sylfaen y gofeb newydd, a leolwyd ar lannau'r Afon Ennig. Dadorchuddiwyd y gofeb newydd ar Ddiwrnod y Cadoediad ym mis Tachwedd 1957. Erbyn 1979, roedd yr afon wedi erydu'r strwythur ac roedd mewn cyflwr peryglus.

Gwnaed cynlluniau i'w atgyweirio a chafodd y gofeb rhyfel bresennol yn Nhalgarth ei chwblhau yn 1989.

Yn ystod y gwaith atgyweirio, cafodd y plac pres gwreiddiol ei ddadorchuddio a'i storio. Fe ddaeth i'r golwg unwaith eto yn 2013 a'i adfer a'i ddychwelyd i Neuadd y Dref, yn gyflawn gyda'r paneli, yn 2014.

Bron union gyferbyn â'r gofeb rhyfel, ar ochr arall y ffordd, mae'r Tŷ Coch.

# Safle 6:
## Y Tŷ Coch

Roedd y Preifat John Charles Powell, 12fed Bataliwn Cyffinwyr De Cymru (rhif gwasanaeth 12047) yn byw yn Tŷ Coch gyda'i wraig, Mary Jeanie Powell.

Cyn ymrestru yn 1916, roedd John yn rheoli siop ddillad yn Nhalgarth. Bu farw o'i glwyfau yn Ffrainc ar 8 Rhagfyr 1917 yn 38 mlwydd oed. Roedd adroddiad ym mhapur newydd y Brecon County Times yn mynegi cydymdeimlad i'w weddw a'i ddwy ferch fach.

Gan adael y gofeb ar eich hol, ewch ar hyd y llwybr troed gyda'r Afon Ennig ar eich chwith. Ychydig cyn cyrraedd y ffordd osgoi,

croeswch y ffordd a cherddded i Heol Newydd. Byddwch hefyd yn cerddded heibio i lyfrgell Talgarth ar eich dde.

# Safle 7:

## Heol Newydd

Ganed y Rhingyll Owen Samuel Day, Bataliwn yr 16eg, Catrawd Swydd Gaer (rhif gwasanaeth 7953) yn Swydd Dyfnaint yn 1882. Yn ddiweddarach, daeth Owen yn ddyn post yn Nhalgarth. Cyn gynted ag y cafodd y Rhyfel Byd Cyntaf ei ddatgan, ymunodd Owen â'i hen gatrawd, sef Catrawd Swydd Gaer. Dyfarnwyd Medal Filwrol iddo am ddewrder ar faes y gad. Ar 9 Medi 1917, cafodd ei daro gan belen dân, tra ar ddyletswydd yn yr orsaf bomio, ac fe'i lladdwyd ar unwaith.

Ar 20 Medi 1917, dyma'r adroddiad ym mhapur newydd y Brecon and Radnor Express: "Talgarth Postman Falls in France." Clywodd Edith, gweddw Owen am farwolaeth ei gŵr. Daeth yn wraig weddw gyda thri o blant bach.

Yn ddiweddarach, aeth Edith ymlaen i briodi Arthur Williams. Roeddynt yn byw yn 4 Heol Newydd.

Ar ddiwedd Heol Newydd, croeswch y ffordd a cherdded i fyny Queens Avenue. Ewch syth yn ei blaen at Lôn y Tŵr yn y gornel dde ac ar ben y lôn, trowch i'r dde. Mae hen dŷ'r ysgol a'r hen ysgol (1845) yno ar y dde.

# Safle 8:

## Yr Hen Ysgol

Mr W. T. Davies oedd yr hen Brifathro. Lluniodd Restr Anrhydeddus o'r bechgyn a addysgwyd yn yr ysgol. Roedd dau Uwch-gapten, Capten, pedwar Is-gapten, un Prif Beiriannydd a nifer fawr o swyddogion eraill. Dywedwyd fod cyn ddisgyblion o India, Canada a De Affrica wedi dychwelyd i "wneud eu rhan". Cafodd cyfanswm o 95 enw eu cofnodi i gyd. Cafwyd adroddiad yn y papur newydd lleol fod dyn ifanc o'r enw Basil Newells, wedi ymrestru hefyd ond iddo gael ei ladd yn ddamweiniol wrth fynd ar gefn ei feic.

Byddwch yn gweld eglwys Santes Gwenf-frewi o'ch blaen. Enwir yr eglwys ar ôl Gwenffrewi, merch Brychan Brycheiniog, Brenin Sir Frycheiniog ar un adeg.

Ewch i mewn i'r fynwent trwy'r gât mo cyrraedd drws yr eglwys, ewch i lawr y llwybr canol cul o'r tri llwybr sydd gyferbyn. Tuag at y diwedd, byddwch yn gweld tri o Feddi Rhyfel y Gymanwlad ar eich dde. Mae beddi eraill mewn mannau eraill yn y fynwent.

# Safle 9:

## Beddi Rhyfel a Gomisiynwyd gan y Gymanwlad ym mynwent Eglwys Santes Gwenffrewi

Ymunodd Daphne Elizabeth Powell gyda Chorfflu Ategol y Frenhines Anne ym mis Tachwedd 1917 ac roedd yn aelod o'r gangen yn Swanage. Bu farw yn yr Hen Ficerdy yn Nhalgarth wedi salwch byr ar 11 Ebrill 1919 yn 21 mlwydd oed.

Mae brawd Daphne sef y Preifat Charles B Powell o Gyffinwyr De Cymru wedi'i gladdu yma hefyd.

Bu farw yn Ysbyty Beechwood House (Casnewydd, Cymru) ar 18 Chwefror 1921 yn 21 mlwydd oed.

Plant Charles ac Eleanor Powell o'r Hen Ficerdy yn Nhalgarth oedd Daphne a Charles.

Mae bedd arall yn coffau'r Rhingyll Staff Percy F Davies o Gorfflu Meddygol y Fyddin Frenhinol, a fu farw ar 4 Mai 1921 yn 31 mlwydd oed yn yr Ysbyty Milwrol yn Limerick. Ef oedd ail fab y Prifathro, Mr W. T. Davies. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Talgarth, yr ysgol Ganolradd yn Aberhonddu a'r Coleg Meddygol yng Nghaerdydd. Roedd Percy wedi cymhwyso fel aelod o Goleg Brenhinol y Llawfeddygon ac yn Llawfeddyg Tŷ yn Ysbyty Charing Cross.

Mae bedd i'r Preifat Alfred Inseal, 3ydd bataliwn Cyffinwyr De Cymru. Fe fu farw ar 2 Hydref 1917 yn 32 mlwydd oed.

Mae bedd gan y Cloddiwr John Patrick Power o'r Peirianwyr Brenhinol yn y fynwent hefyd.

Ef oedd mab John a Bridget Power. Bu farw John ar y 4 Ionawr 1921 yn 28 mlwydd oed.

Gadewch y fynwent trwy'r gât mochyn ar y pen pellaf a throi i'r dde i fynd at Heol yr Eglwys. Ewch i lawr Heol yr Eglwys/ y Rhiw tuag at y dref. Mae ychydig o lethr yma. Cymerwch y troad cyntaf i'r chwith i fynd ar hyd Brook Lane ac edrychwch i weld hen Dafarn yr Upper Lion ar eich dde.

# Safle 10:

## Tafarn y Llew Uchaf

Meibion David ac Annie Roberts oedd y Preifat Reginald Charles Roberts Bataliwn 1af/2il Catrawd Sir Fynwy (rhif gwasanaeth 267529) a'r Preifat William Arthur Roberts 4ydd Bataliwn Cyffinwyr De Cymru (rhif gwasanaeth 27809).




Ganed a bedyddiwyd Reginald yn Nhalgarth yn 1886 pan oedd y teulu yn byw ar y Stryd Fawr. Yn 1901, roeddynt yn byw yn Nhafarn yr Upper Lion. Disgrifiwyd David fel tafarnwr a chludwr coed.

Roedd William a Reggie wedi ymrestru yn Nhalgarth. Aeth Willie i India gyda Chatrawd Sir Frycheiniog yn 1914 a bu farw yn Nhwrci ar 25 Mawrth 1918. Gwasanaethodd Reginald yn Ffrainc a bu farw ar faes y gad ar 22 Mai 1918.

Ewch yn eich blaen rhwng y bythynnod i lawr Brook Lane. Croeswch y bont dros yr Afon Ennig ac aros ar y llwybr, gan gadw at y dde. Trowch i'r dde, gan fynd trwy'r bwlch yn y rheiliau. Ewch i lawr y grisiau a chroesi'r Afon Ellywe i'r chwith.

Byddwch yn dod allan rhwng y tai ar Ffordd Penbont. Trowch i'r dde a cherddded tuag at Westy'r Bell. Ewch yn eich blaen tuag at Bell Street a cherddded ychydig o bellter tan i chi gyrraedd y Stryd Fawr. Ar y Stryd Fawr, trowch i'r chwith a pharhau am tua 200 medr. Byddwch wedi hynny yn cyrraedd nôl yn y maes parcio.




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100025371
© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100025371